

**Cyfarwyddwr  
Gwasanaethau Cyllid a  
Digidol**

# **Polisi Rhyddhad Treth y Cyngor yn ôl Disgresiwn**

**Fersiwn: 2.2  
Wedi'i ddiweddarau: Ebrill 2019**

## Cynnwys

1) Cyflwyniad.....	3
2) Pwerau Deddfwriaethol .....	3
3) Datganiad o'n Hamcanion .....	3
4) Hawlio Rhyddhad yn ôl Disgresiwn .....	4
5) Penderfynu.....	6
6) Hysbysiad o Benderfyniad.....	7
7) Adolygu'r Penderfyniad .....	7
8) Ceisiadau Twyllodrus a Gordaliadau.....	7
9) Datganiad Cydraddoldeb.....	8
10) Mynediad i Ddata a Rhannu Data .....	8

## 1) Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r Polisi Rhyddhad yn ôl Disgresiwn yma i gynorthwyo talwyr Treth y Cyngor sy'n wynebu gofid neu galedi ariannol. Bwriad y polisi yma, hefyd, yw rhoi cymorth ariannol pellach i ymgeiswyr sy'n hawlio Gostyngiad Treth y Cyngor pan dydy'r gostyngiad ddim yn ddigon i wneud y taliadau Treth y Cyngor mae rhaid iddyn nhw eu talu.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweinyddu'r Polisi Rhyddhad yn ôl Disgresiwn, a bydd ar gael i unrhyw dalwr Treth y Cyngor dan yr amodau sy wedi eu rhestru yn Adran 4 a 5 y polisi yma. Diben y Polisi Rhyddhad yn ôl Disgresiwn yma yw rhoi cymorth dros dro i dalwyr Treth y Cyngor er mwyn eu helpu nhw i ostwng y taliadau Treth y Cyngor mae rhaid iddyn nhw eu talu. Mae rhoi'r polisi yma ar waith yn destun disgrisiwn y Cyngor.

## 2) Pwerau Deddfwriaethol

Mae Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a gafodd ei mewnosod gan Adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003) yn rhoi hawl i'r Cyngor ostwng taliadau Treth y Cyngor mewn perthynas ag achosion unigol neu gategoriâu, ac mewn achosion lle does dim modd gweithredu eithriadau a gostyngiadau cenedlaethol.

Mae crynodeb o Adran 13A (1)(c) i'w gael isod:

- Os ydy person yn agored i dalu Treth y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw gartref trethadwy, mae modd i'r Cyngor ar gyfer yr ardal lle mae'r cartref wedi'i leoli leihau'r swm yn ôl yr hyn mae'n credu sy'n briodol.
- Mae'r pŵer o dan is-adran 1) yn cynnwys y pŵer i leihau'r cyfanswm i ddim.
- Mae modd arfer y pŵer o dan is-adran 1) mewn perthynas ag achosion penodol neu drwy benderfynu bod achos yn perthyn i gategori lle mae modd cynnig gostyngiad.

Mae goblygiadau ariannol ynghlwm wrth ddyfarnu unrhyw ryddhad yn ôl disgrisiwn, heblaw am y rhai sydd ar gael ar hyn o bryd dan ddeddfwriaeth statudol. Hefyd, mae baich ariannol y rhyddhad yn ôl disgrisiwn dan Adran 13A yn cael ei ysgwyddo yn uniongyrchol gan y Cyngor trwy golli referniw Treth y Cyngor.

## 3) Ein Hamcanion

Diben y polisi yma yw nodi sut bydd y Cyngor yn defnyddio'r pŵer disgrisiynol yma i sefydlu'r ffactorau bydd yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch rhoi cymorth tuag at Dreth y Cyngor (neu beidio).

Prif amcan Rhyddhad Treth y Cyngor yn ôl Disgresiwn yw cynnig cymorth ariannol yn y tymor byr i dalwyr Treth y Cyngor sy'n wynebu amgylchiadau eithriadol. Caiff pob cais am Ryddhad Treth y Cyngor eu hystyried yn unigol a chaiff pob person sy'n talu Treth y Cyngor eu trin yn deg ac yn gyfartal. Trwy ddefnyddio'r polisi yma, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlynol:

- Lliniaru anghyfiawnder cymdeithasol
- Atal digartrefedd
- Cadw teuluoedd gyda'i gilydd

- Rhoi cymorth i bobl sy'n agored i niwed yn eu cartrefi ac yn y gymuned

- Rhoi cymorth i ymgeiswyr sy'n methu â gweithio oherwydd anabledd, ac sydd wedi eu hasesu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;
- Rhoi cymorth i gwsmeriaid sy'n profi argyfwng personol a digwyddiadau anodd
- Rhoi cyngor ar ddulliau posibl dros y tymor hir i dalu eu costau tai
- Gwella cyflwr ariannol trwy atgyfeirio unigolion i ymgynghorydd annibynnol, er enghraifft, Gwasanaeth Arian a Phensiynau.

Dydy'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr a byddwn ni'n ystyried pob ffactor ac amgylchiadau eithriadol.

Yn unol â'r polisi yma, caiff Rhyddhad Treth y Cyngor yn ôl Disgresiwn ei roi yn fesur dros dro, er mewn rhai achosion/categoriâu mae modd iddo gynnig rhyddhad am gyfnod hwy. Yn gyffredinol, nid bwriad y polisi yw talu'r gwahaniaeth rhwng Treth y Cyngor a'r Grant Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor neu unrhyw ostyngiadau eraill dros y tymor hir.

#### 4) **Hawlio Rhyddhad yn ôl Disgresiwn**

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol bydd y Cyngor yn ystyried defnyddio ei bwerau i leihau taliadau Treth y Cyngor neu ddsbarthiad person sy'n talu, gan fod rhaid i'r Cyngor dalu gweddill yr arian.

Dyma rai amgylchiadau mae modd iddyn nhw achosi caledi ariannol i dalwyr Treth y Cyngor (dydy'r holl amgylchiadau posibl ddim yn cael eu rhestru yma):

- Newid sydyn mewn amgylchiadau, fel colli swydd
- Gostyngiad mewn incwm oherwydd salwch yn achos rhywun sy'n agored i dalu Treth y Cyngor
- Rhywun sy'n agored i dalu Treth y Cyngor yn colli incwm er mwyn gofalu am ddibynnydd
- Cynnydd sydyn o ran costau, er enghraifft, o ganlyniad i salwch neu anallu aelod o'r teulu.

Mae modd i galedi cyffredinol hefyd gael ei achosi trwy fyw ar incwm bach iawn. Mae'n anodd penderfynu a fydd person sydd ag incwm bach yn gymwys i dderbyn cymorth ychwanegol drwy'r polisi yma. Fodd bynnag, mae'r canlynol yn ffactorau y mae modd i'r Cyngor eu hystyried:

- Anallu i wneud taliadau am gyfleustodau sylfaenol megis dŵr, trydan a gwres
- Achosion llys ar gyfer dyledion cyfredol
- Gwario tu hwnt i gyfyngiadau gorddrafft yn gyson heb dystiolaeth o wario ar unrhyw beth sydd ddim yn angenrheidiol megis cyfleustodau, bwyd a llety
- Bygythiad bod yn ddigartref
- Anallu i dalu am fwyd

##### **4.1 Pwy sy'n gymwys i wneud cais?**

Dyma'r unigolion sy'n agored i dalu Treth y Cyngor i Gyngor Rhondda Cynon Taf sy'n gymwys i wneud cais:-

- Pobl sy'n berchen ar eu cartref ac yn byw ynddo
- Tenantiaid
- Preswylwyr sy'n agored i dalu Treth y Cyngor (ond ddim yn 'denant' ffurfiol)
- Pobl sy'n gweithredu ar ran unigolion sy'n agored i'w thalu, hynny yw,

cynrychiolwyr penodedig, cyfreithwyr neu unigolion ag atwrneiaeth

#### **4.2 Pwy sydd ddim yn gymwys i wneud cais?**

Unrhyw berson sydd *ddim* yn talu treth y Cyngor i Gyngor Rhondda Cynon Taf, ond hefyd;

- Landlordiaid cartrefi lle mae'r tenant yn agored i'w thalu
- Landlordiaid, os yw'n atebol
- Asiantiaid eiddo/asiantiaid rheoli ar ran landlord
- Ffrindiau/perthnasau i unigolion sy'n agored i'w thalu (oni bai eu bod yn gweithredu'n gynrychiolydd neu o dan atwrneiaeth)
- Lletywyr neu breswylwyr eraill sydd ddim yn talu Treth y Cyngor
- Asiantaethau cymorth (oni bai eu bod yn gweithredu'n gynrychiolydd neu o dan atwrneiaeth)
- Banciau neu ddeiliaid morgeseisi neu bridianau cyfreithiol eraill ar gyfer eiddo/cartrefi
- Perchnogion cartrefi gwag (gan gynnwys cartref sy'n wag yn hirdymor sy wedi'i ddynodi fel Dosbarth C 1)

Bydd y Cyngor yn trin bob cais yn unigol, ond rhaid i bob cais fodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid bod tystiolaeth o galedi ariannol neu amgylchiadau personol sy'n cyfiawnhau gostyngiad yn nhaliad Treth y Cyngor
- Rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor ei fod wedi gwneud pob cam rhesymol i ddatrys ei sefyllfa cyn gwneud cais
- Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am gymorth Treth y Cyngor (mae Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, gan Lywodraeth Cymru, yn bodoli er mwyn sicrhau bod y bobl hynny ar incwm bach yn derbyn cymorth ariannol gyda'u Treth y Cyngor)
- Rhaid bod pob gostyngiad/rhyddhad arall o ran Treth y Cyngor wedi ei ddyfarnu yn barod
- Does dim asedau eraill ar gael i'r ymgeisydd eu defnyddio i dalu Treth y Cyngor
- Mae pob dull cyfreithlon arall i geisio datrys y sefyllfa wedi ei ystyried a'i ddihysbyddu gan yr ymgeisydd
- Rhaid bod y sefyllfa a'r rheswm dros wneud cais tu hwnt i reolaeth yr ymgeisydd
- Rhaid i'r swm sy'n ddyledus beidio â bod o ganlyniad i beidio â thalu yn fwriadol neu beidio â thalu oherwydd esgeulustod.

Bydd angen i geisiadau am ostwng taliadau Treth y Cyngor gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig gan dalwyr Treth y Cyngor neu drydydd parti cydnabyddedig wedi ei benodi i weithredu ar eu rhan.

Dylai'r cais ymwneud â'r flwyddyn Treth y Cyngor bresennol, oni bai bod yr ymgeisydd wedi cael bil yn dilyn oedi wrth wneud prisiad Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn flaenorol / blynyddoedd blaenorol neu benderfyniad hwyr ynglŷn â bod yn agored i dalu Treth y Cyngor (ar yr amod dydy'r penderfyniad hwyr ddim yn fai'r ymgeisydd).

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn am unrhyw dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r cais am ryddhad yn ôl disgresiwn, a bydd yn gweithredu mewn ffordd gyson a rhesymol wrth wneud hynny. Os bydd yr ymgeisydd yn methu â darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen, neu'n peidio â gwneud hynny, bydd y Cyngor yn

ystyried y cais ac yn cymryd i ystyriaeth unrhyw dystiolaeth arall

---

1 Rheoliadau Treth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, wedi'u diwygio



sydd ar gael, gan gynnwys dogfennau sydd wedi eu cadw yn y ffeil achos Budd-dal Tai neu Ostyngiad Treth y Cyngor.

Wrth benderfynu ar ddyfarnu rhyddhad yn ôl disgresiwn, bydd y Cyngor yn ystyried cyflwr ariannol cyffredinol yr aelwyd.

## 5) Penderfynu

Mae'r Polisi Rhyddhad yn ôl Disgresiwn, drwy ddiffiniad, yn ddewisol, ond mae gan y Cyngor ddyletswydd i wneud penderfyniadau yn unol ag egwyddorion cydnabyddedig ynglŷn â gwneud penderfyniadau da (hynny yw, y gyfraith weinyddol) ac yn benodol, i weithredu mewn ffordd deg, resymol a chyson.

Bydd Pennaeth y Gwasanaeth (Refeniw a Budd-daliadau) yn asesu pob cais Adran 13A trwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaeth Pensiynau, Caffael a Thrafodion. Bydd y penderfyniad maen nhw'n ei argymhell yn cael ei gyfeirio at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol ar gyfer ei awdurdodi.

Wrth benderfynu unai i roi rhyddhad neu beidio, bydd y Cyngor yn ystyried y canlynol:

- Y gwahaniaeth rhwng incwm a gwariant
- Unrhyw gamau sy wedi'u cymryd gan yr ymgeisydd i ostwng eu taliadau rhent neu'r taliadau Treth y Cyngor mae'n agored i'w talu
- Amgylchiadau teuluol, ariannol a meddygol yr ymgeisydd, ei bartner ac unrhyw bobl eraill yn y cartref
- Unrhyw arbedion neu gyfalaf sydd gan deulu/aelwyd yr ymgeisydd
- Cyfradd ddyled yr ymgeisydd
- Unrhyw resymau arbennig sy'n golygu ei bod hi'n angenrheidiol neu'n ddymunol i'r ymgeisydd fyw yn y cartref sy'n destun y taliadau mae'n agored i'w talu
- Goblygiadau posibl ôl-ddyledion Treth y Cyngor ar gyfer yr ymgeisydd neu ei deulu, yn enwedig os yw unrhyw un ohonyn nhw'n agored i niwed ar sail oed, salwch neu anabledd
- Unrhyw bosibilrwydd i'r ymgeisydd newid ei arferion gwario ar eitemau sydd ddim yn hanfodol
- Yr effaith posibl o beidio â gwneud taliad e.e. y pwysau ar lety sy'n blaenoriaethu pobl ddigartref
- Camau sy'n cael eu cymryd gan yr ymgeisydd i wella neu i newid ei sefyllfa gartref, ei sefyllfa ariannol neu ei sefyllfa bersonol er mwyn gostwng neu gyfyngu ar faint o gymorth y bydd ei angen arno yn y dyfodol, hynny yw, helpu'r rhai sy'n ceisio'u helpu eu hunain
- Unrhyw amgylchiadau arbennig eraill sydd wedi dod i sylw'r Cyngor

Bydd unrhyw ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn rhyddhad ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol, ond bydd yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a bydd rhaid gwneud cais arall am ragor o gymorth.

Yn gyffredinol, bydd dyfarniadau'n cael eu rhoi o'r dyddiad mae'r ffurflen gais yn cyrraedd y Cyngor, ond mae modd i'r Cyngor ôl-ddyddio dyfarniadau o dan y polisi yma, os bydd hynny'n cael ei ystyried yn rhesymol.

## 6) Hysbysiad o Benderfyniad

Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig ymhen 14 diwrnod o gael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad, neu ymhen cyfnod rhesymol ar ôl hynny.

Os bydd cais am ryddhad yn ôl disgrisiwn yn llwyddiannus, bydd yr ymgeisydd (ac unrhyw barti arall sy'n cael ei effeithio) yn cael gwybod:

- Swm y dyfarniad
- Amgylchiadau'r dyfarniad, unrhyw gamau y dylai'r ymgeisydd eu cymryd ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y dyfarniad
- Dyddiad dechrau'r dyfarniad, a'r dyddiad y daw i ben
- Ei ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw newid mewn amgylchiadau y byddai modd iddyn nhw effeithio ar y dyfarniad
- Y modd i adennill unrhyw ddyfarniad
- Y weithdrefn nesaf pe bydd yr ymgeisydd yn anghytuno â'r penderfyniad

## 7) Adolygu'r Penderfyniad

Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, does dim modd gwneud apêl yn erbyn defnydd y Cyngor o'i bwerau disgrisiynol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn derbyn cais ysgrifenedig gan yr ymgeisydd am adolygiad pellach o'i benderfyniad, os bydd y cais yn cael ei wneud ymhen mis o ddyddiad yr hysbysiad o benderfyniad.

Bydd y cais am adolygiad yn cael ei ystyried gan unigolyn gwahanol i'r un a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol. Bydd y person hwnnw yn ystyried a yw'r ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth ychwanegol yn ôl y meini prawf gofynnol a fydd yn cyfiawnhau newid y penderfyniad gwreiddiol.

Os bydd yr adolygiad yn dod i'r casgliad i beidio â diwygio'r penderfyniad gwreiddiol, bydd y penderfyniad yma'n un terfynol. Yr unig ffordd o herio hyn yw trwy apelio i Dribiwnlys Priso Cymru, trwy adolygiad barnwrol neu drwy wneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yn achos honiadau o gamweinyddu).

## 8) Ceisiadau Twyllodrus a Gordaliadau

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adennill unrhyw ordaliad o ryddhad yn ôl disgrisiwn os ydy'r dyfarniad wedi ei wneud o ganlyniad i gamliwio neu fethu â datgelu ffaith berthnasol, trwy dwyll (neu fel arall), neu yn sgil gwall gweinyddol gan y Cyngor (os ydy'n rhesymol i dybio y byddai'r trethdalwr wedi bod yn effro i hynny).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag achosion o dwyll a chamddefnyddio arian cyhoeddus o bob math. Os bydd amheuaeth bod achos o dwyll wedi digwydd, bydd yr achos yn cael ei ymchwilio, a gall hyn arwain at gychwyn camau troseddol. Bydd y Cyngor yn ystyried erlyn unrhyw ymgeisydd sy'n gwneud datganiad ffug neu sy'n darparu tystiolaeth dwyllodrus i gefnogi ei gais.

Fydd cais am ryddhad yn ôl disgrisiwn ddim yn cael ei ystyried ar gyfer talu unrhyw Dreth y Cyngor mae disgwyl i'r trethdalwr ei thalu ar ôl iddo gael ei erlyn a'i gael yn euog o dwyll Budd-dal Tai a Threth y Cyngor / Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, neu mewn achosion lle mae cosb weinyddol neu sancsiwn wedi ei roi yn ystod y chwe blynedd.

## 9) Datganiad Cydraddoldeb

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau tegwch a chydraddoldeb. Mae cydraddoldeb yn golygu sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg a bod cyfleoedd teg ar gael iddyn nhw i gyd. Mae hefyd yn golygu sicrhau bod pobl yn derbyn deilliannau teg o ran safon y gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn gan y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys pawb, o bob hil, rhyw, oedran, crefydd neu gred, tuedd rywiol ac/neu anabledd.

## 10) Mynediad i Ddata a Rhannu Data

Mae'r Cyngor yn cael casglu data i gefnogi taliadau yn ôl disgrisiwn, i ddod o hyd i dystiolaeth ar eu cyfer, ac i benderfynu gwneud taliadau yn ôl disgrisiwn. Bydd y cynllun yn gweithredu i gefnogi egwyddorion i gael mynediad at ddata a rhannu data mewn modd teg, rhesymol a chyfrinachol ar bob adeg. Rydyn ni'n gwneud hyn er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid bob tro'n derbyn y taliadau cywir a bod arian cyhoeddus a diddordeb y bobl sy'n talu Treth y Cyngor yn cael eu diogelu.

\*\*\*\*\*